# y dinesydd

Chwefror 1997 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 225

# ADRAN Y GYMRAEG YN MYND O NERTH I NERTH!

Gall trigolion y brifddinas ymfalchio yn y ffaith fod Adran y Gymraeg ym Mhrifysgol Cymru Caerdydd wedi'i dyfarnu'n ddiweddar yn un o'r prif ganolfannau ymchwil trwy Brydain gyfan ym maes Astudiaethau Celtaidd.

Bob pedair blynedd y mae'r llywodraeth yn asesu safon ymchwil academaidd ym mhrifysgolion Prydain. Yn y canlyniadau a gyhoeddwyd yn union cyn y Nadolig, dyfarnwyd Graddfa 5 i Adran y Gymraeg yng Nghaerdydd, sy'n golygu ei bod ar y brig yn ei maes. O'r 15 sefydliad prifysgol yng ngweledydd Prydain a Gogledd Iwerddon a gafodd eu hasesu ym maes Astudiaethau Celtaidd, i bedwar yn unig y dyfarnwyd Graddfa 5, sef Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru Caerdydd; Prifysgol Rhydychen; Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru Aberystwyth; a Chanolfan Uwchefrydiau Cymraeg a Cheltaidd Prifysgol Cymru.

Ystyr 'Graddfa 5' yw bod y tîm o ysgolheigion a fu'n asesu safon yr ymchwil o'r farn fod i'r ymchwil academaidd a gyflawnir yn Adran y Gymraeg yng Nghaerdydd 'ragoriaeth sydd i'w chymharu â'r safonau cenedlaethol a rhyngwladol gorau'. Arwydd arall o ragoriaeth academaidd yr Adran yw mai dim ond 21 o'r 151 o adrannau prifysgol a aseswyd ledled Cymru a enillodd Raddfa 5. O'r 21 hynny, yr oedd 11 ym Mhrifysgol Cymru Caerdydd, ac y mae'r asesiad ymchwil drwyddo draw wedi cadarnhau safle Caerdydd fel y prif sefydliad prifysgol yng Nghymru ac un o'r goreuon ym Mhrydain.

Datblygiad sydd ar y gweill gan yr Adran, a all fod o ddiddordeb arbennig i'n darllenwyr, yw cyrsiau gradd rhan-amser. Y mae eisoes yn bosibl astudio'n rhan amser yn yr Adran ar gyfer gradd MA mewn Astudiaethau Gwerin, ac yn y dyfodol agos bwriedir dechrau cynnig graddau BA Cymraeg rhan-amser. Ar y gweill hefyd y mae gradd newydd Ll.B. yn y Gymraeg a'r Gyfraith, mewn cydweithrediad ag Ysgol y Gyfraith, uned arall yn y Brifysgol a gafodd Raddfa 5. Os am ragor o wybodaeth, rhif ffôn swyddfa'r Adran yw 874843.

# Y Flwydd a'r 90 Mlwydd!

'Blwyddyn newydd dda i chi - a llawer ohonyn nhw!!' - dyna fel y bu Mary Buttle a Beti Rhys yn cyfarch ei gilydd adeg y Calan eleni yn siop llyfrau Cymraeg Mary yn yr Eglwys Newydd, sef Siop y Felin. Ond roedd ystyr arbennig i'r cyfarchiad yn achos y ddwy. Eleni bydd Beti yn dathlu ei phen-blwydd yn 90oed - a Siop y Felin yn dathlu ei blwyddyn gyntaf! Ac mae gan Beti ddiddordeb arbennig iawn yn Siop y Felin. Rhwng 1950 a 1968 bu hi ei hun yn rhedeg siop lyfrau yng Nghaerdydd. Sawl un o ddarllenwyr *Y Dinesydd* sy'n cofio'r siop honno, Siop Lyfrau'r Brifysgol, yn Arcêd y Castell, siop a fu'n ganolfan gymdeithasol i Gymry'r ddinas yr adeg honno?

Mae Beti'n byw yn Aberystwyth er 1983, ond bu'n treulio'r Calan yng Nghaerdydd eleni, a manteisiodd ar y cyfle i daro draw i Siop y Felin i gyfarch Mary a dymuno'n dda i'r siop ar ei phen-blwydd. 'Roeddwn i'n ffodus iawn pan agorais i'r siop gyntaf,' meddai Beti. 'Cefais gefnogaeth lu o ffrindiau, a bu nifer o ysgolion a cholegau'r ddinas a'r fro yn archebu eu llyfrau i gyd gyda fi. Mae cefnogaeth felly yn holl bwysig i lwyddiant menter fel hon, ac roeddwn i'n falch iawn o glywed bod Mary'n cael ymateb mor dda gan Gymry'r ardal.'

Roedd yn falch o gwrdd â Beti hefyd, a chafodd y ddwy gyfle i gyfnewid profiadau a syniadau. Roedd Mary'n falch iawn o'r cyfle i ddymuno pen-blwydd hapus i Beti. 'Bydd Beti'n dathlu ei phen-blwydd yn 90 fis Ebrill eleni,' meddai Mary. 'Gobeithio'n wir y bydd Siop y Felin yn cyrraedd yr un oedran - a dal mor dda!'

Hir oes i'r ddwy, medd *Y Dinesydd!*



Mary Buttle a Beti Rhys yn Siop Y Felin *Llun: Robin Griffith*

# Y Dinesydd

**Chwefror 1997, Rhif 225.** **ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Anfonwch ddefnydd ar gyfer rhifyn Mawrth at un o'r canlynol erbyn 14 Chwefror:**
Mr W. J. Jones, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (Ffôn: 756282, Ffacs: 578106): Newyddion Cyffredinol.
Mr Garwyn Davies, 27 Baron Road, Penarth.(Ffôn: 708253): Newyddion y Fro.
Mr B. D. Harries, 6 Lakeside, Caerdydd (Ffôn: 756562): Newyddion Byd Addysg Gynradd.
Mr Thomas Davies, 41 Highfields, Caerdydd (Ffôn/Ffacs: 564540): Newyddion Chwaraeon.
Y Parchedig Gwilym Dafydd, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 626811): Newyddion o'r Eglwysi.
Ms Gill Stephen, Coleg Glan Hafren, 35 The Parade, Caerdydd (Ffôn: 250439): Gweithgareddau Dysgwyr.

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Alun Ceri Jones, Surrexit, 2 Merthyr Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 1DG. Ffôn: 01222 529888.

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae hysbysebion yn hanfodol i gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:

Miss Catrin Rowlands, 42 Carling Court,
Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 4PH
(Ffôn: 01222 598243).

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Aled Williams, Rhos-y-grug, 89 Pen-twyn, Radur, Caerdydd (Ffôn: 844483) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu'n drwm ar gyfraniadau'r rhai sy'n ei ddarllen.

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor y Celfyddydau i'r cyhoeddiad hwn.

## FFURFLEN CYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ..........................................................................

Cyfeiriad: ....................................................................

.............................................. Côd Post: ..................

Rhif Ffôn: ....................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Aled Williams, Rhos-y-grug, 89 Pen-twyn, Radur, Caerdydd

## FFURFLEN TANYSGRIFIO

Amgaeaf danysgrifiad blwyddyn o £15 er mwyn derbyn *Y Dinesydd* drwy'r post yn rheolaidd.

Enw: ..........................................................................

Cyfeiriad: ....................................................................


.............................................. Côd Post: ..................

Rhif Ffôn: ....................................................................

Dychweler y ffurflen hon i swyddfa Surrexit, 2 Merthyr Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 1DG.

## CROESAIR AP LEWSYN

**Rhif 157** **Chwefror 1997**



**AR DRAWS**

1. Edwin oedd yn amlwg yn nychu. (6)
6. Yn sych fel y fuwch ddi-laeth. (4)
10. Clywyd ymhlith y Cymry sôn am y gystadleuaeth. (7)
11. Peri niwed pan yn dodi rif ar y drws yn ddiglem. (7)
12. Lle sy'n cynnig dewis o siopau. (3)
13. Rhoddir y sein i adnabod eich cyd-aelodau. (5,6)
14. Ymborthi yn y fath dŷ! (5)
15. Mewn creisis enbyd o ryfyg sangu yn y fath fodd. (9)
17. Lle mae Taf yn derbyn Cynon. (9)
18. Gŵr o'i fath yn tyfu eiddew. (5)
20. Tipyn o rialtwch i ddathlu dydd nawddsant yn flynyddol. (4,7)
23. Mae un rhan o Fodelwyddan yn reit brydferth. (3)
24. Cenhedlodd. (7)
25. Lle mae cerflun Caradog yn dal i arwain ei gôr ar sgwâr y dre. (7)
27. Fe all y nico droi a brathu. (4)
28. Ar unwaith! (6)

**I LAWR**

2. Hynt y byd ar y cyfryngau yn cythryblu ynni llawer dyn oedd yn gwrando. (6,1,8)
3. Ceir gwefr o godi asbri. (3)
4. Byddai yn arswydo o weld un yn mynd i afon dros ei ben. (5)
5. Cerdd y seindorf bres wrth fartsio. (9)
6. Cartref gwyliau i'r teulu? (5)
7. Chwedl na ellir mo'i derbyn. (5,10)
8. Llythyr i sôn am rinweddau'r dygiedydd. (6)
9. Gyda'r hwyr. (3,3)
13. Torri cyt. (5)
15. Mae pobl yn gwybod amdano. (9)
16. 'Pa ..... mwy y rhydd eich Tad?' (Mathew VII) (5)
17. Ernes a gewch o goler a thei. (6)
19. Y ci ffyddlon anffortunus. (6)
21. Cerrig, os byddant yn fawr, yn gaboledig, neu yn werthfawr. (5)
22. Un o chwaraewyr pêl-droed Abertawe? Tybed? (5)
26. Mae'r hen archoffeiriad yn cynnig meddyginiaeth. (3)

**Cystadleuaeth Rhif 156**

Derbyniwyd pedwar datrysiad cywir. Yr enw a dynnwyd ar hap oedd y Parch. J.D. Williams, 56 Clearwater Way, Ger-y-llyn, Caerdydd. Y mae'r tocyn llyfrau eisoes ar ei ffordd iddo.

**Cystadleuaeth Rhif 156**

Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair i gyrraedd: 'Croesair Ap Lewsyn', d/o 28 St. Francis Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd erbyn 18 Chwefror os gwelwch yn dda.

**Annwyl Syr,**

Fel rhan o brosiect ymchwil ar ddiwylliant gweledol Cymru, y mae'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd yn gweithio ar hanes yr arlunydd Margaret Lindsay Williams. Fe'i ganed yng Nghaerdydd yn 1888 a threuliodd ei phlentyndod yn y Barri a Dinas Powys. Cafodd hyfforddiant yn yr Academi Frenhinol yn Llundain a datblygodd yrfa lwyddiannus iawn fel arlunydd portreadau yn y ddinas honno. Bu farw yn 1960. Hoffwn gysylltu â phobl sydd ag enghreifftiau o waith Margaret Lindsay Williams yn eu meddiant, neu sydd ag atgofion personol amdani. Fy nghyfeiriad yw: Adran Gelf, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF1 3NP.

Llawer o ddiolch,

**Angela Gaffney**

## Noson o wledd a chân

Codwyd £700 ar gyfer Mudiad y Cynhalwyr a Chymdeithas Crossroads mewn noson arbennig yng nghartref Arglwydd Faer Caerdydd yn Ffordd Richmond yn ddiweddar. Ar wahoddiad yr Arglwydd Faeres, Mrs Ray Phillips, fe drefnodd swyddogion y ddwy elusen noson fythgofiadwy i'r dyrfa sylweddol a ddaeth ynghyd. Oherwydd amgylchiadau nifer o'r aelodau dyma'r cyfle cyntaf iddyn nhw allu mwynhau noson o seibiant ers llawer tro. Cafwyd cyfle i grwydro a gwerthfawrogi creiriau'r adeilad sydd mor arwyddocaol yn hanes ein prifddinas cyn mwynhau bwffe a bargeinion y basâr. Wedi'r wledd roedd hi'n amser clywed danteithion cerddorol yng nghwmni'r delynores a'r gyfeilyddes fedrus Lois Davies, lleisiau swynol Siriol Williams a Iona Jones, a Nia Thomas a Carys John fu'n diddanu â chyfres o ddeuawdau cyfoes.

Mae Mudiad y Cynhalwyr yn cynnig cefnogaeth a chyngor i unrhyw un sy'n gofalu am berson anabl ac oedrannus tra mae Crossroads yn darparu gwasanaeth o ofal yn y cartre i gynhalwyr sydd am seibiant o dro i dro. Mae diolch y ddwy elusen a phawb oedd yno i Mrs Ray Phillips. Fel un a fu'n gofalu am ei thad am flynyddoedd roedd hi'n gallu uniaethu â nifer o'r rhai oedd yn bresennol ac roedd ei hanerchiad yn brawf o hynny.

Os hoffech ragor o fanylion am weithgareddau Mudiad y Cynhalwyr a Crossroads yn y cylch cysylltwch â Gwenda Morgan (Cadeirydd Cynhalwyr Caerdydd a'r Fro) ar 01222 693848.

## Cylch Cinio Cymraeg y Barri

Rhaid cofnodi Noson y Gwragedd rai wythnosau'n ôl, ac anerchiad difyr yr actores a'r athrawes Myfanwy Jarman. Aeth â ni'n ôl i Fôn ei chartre bore oes, ei phlentyndod, ei chartre, ei hysgol a'i chapel, cyn dod i fyw i Gaerdydd ac ymaelodi yng Nghapel y Crwys a datblygu ei diddordeb ym myd y ddrama. Noson fydd yn aros yn hir yn y cof.

## Tipyn o Fenter

Mae'n bosib y gellid sefydlu menter debyg i Menter Taf-Elái i hyrwyddo'r Gymraeg yn ein plith. Dan arweiniad y Fenter honno bu cyfarfod yn y Mason's Arms, Yr Eglwys Newydd yn ddiweddar i drafod syniad o'r fath. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Penri Williams, cadeirydd presennol Menter Taf-Elái ac anerchwyd gan Steffan Webb, Swyddog Datblygu Menter Taf-Elái a soniodd am yr hyn sy'n digwydd yno ar hyn o bryd. Wedi trafodaeth sefydlwyd pwyllgor llywio i drafod y pwnc ymhellach.

## Calendr y Dinesydd

**Llun, 17 Chwefror**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: 'Pam Trin Dŵr?' Darlith gan Ken Williams (Dŵr Cymru), yn Ystafell G71, Prif Adeilad Prifysgol Cymru Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m.

**Gwener, 21 Chwefror**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Pa mor Gymraeg roedd Caerdydd rhwng 1750 a 1850'. Darlith gan Owen John Thomas yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Rhodfa Colum, Prifysgol Cymru Caerdydd, 7pm

**Gwener, 21 Chwefror**
Cymrodorion Caerdydd: Cinio Gŵyl Ddewi yn Neuadd Aberdâr.

**Iau-Sadwrn, 20-22 Chwefror**
Cwmni Dalier Sylw yn cyflwyno 'Bonansa!' gan Meic Povey yng Nghanolfan Chapter, Heol y Farchnad, Treganna. Manylion pellach: 01222-236650.

**Sadwrn, 22 Chwefror**
Ysgol Undydd ar y testun 'Rhyfel y Beirdd' dan nawdd Adran Addysg Barhaol Prifysgol Cymru Caerdydd, yn 38 Park Place, Caerdydd, rhwng 10.30 a.m. a 4.00 p.m. Darlithydd: Y Prifardd Alan Llwyd. Tâl: £12. Cyswllt: Dr Gwen Awbery 01222-874832.

**Mawrth, 25 Chwefror**
Cymdeithas Nos Fawrth Eglwys Tabernacl, Yr Ais: Y Ddrama dan ofal Sian Owen Thomas a'i ffrindiau, am 7.30 p.m. Croeso i bawb.

**Mercher, 26 Chwefror**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd, yng Nghapel Minny Street am 2.00 p.m. I annerch: Brinley Jenkins.

**Gwener, 28 Chwefror/Sadwrn, 1 Mawrth**
Theatr Bara Caws yn cyflwyno cyfieithiad Tony Llywelyn o ddrama Jimmy Murphy, *Brodyr y Brwsh*, yng Nghanolfan Chapter. Tocynnau: 01222-399666.

**Llun, 3 Mawrth**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Noson Gawl a Chân dan arweiniad Arthur Bowen, yn Neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30 p.m.

**Mawrth, 4 Mawrth**
Cymdeithas Nos Fawrth Eglwys Tabernacl, Yr Ais: Swper Gŵyl Ddewi, am 7.30 p.m. I annerch: Mostyn Jones. Croeso i bawb.

**Mawrth/Mercher, 11-12 Mawrth**
Theatr Gwynedd yn cyflwyno drama Delyth Jones, *Yr Aduniad*, yn Theatr Sherman am 8.00 p.m. Tocynnau: 01222-230451.

**Mawrth, 11 Mawrth**
Cymdeithas Nos Fawrth Eglwys Tabernacl, Yr Ais: Ymweliad gan Gymdeithas Tonyfelin, am 7.30 p.m. Croeso i bawb.

**Mercher, 12 Mawrth**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd, yn festri Capel Minny Street am 2.00 p.m. I annerch: Dr Elunis Goodfellow.

**Iau, 13 Mawrth**
Clwb Gwawr Caerdydd a'r Cyffiniau: Cwis adloniant dan ofal Ieuan Rhys, yng Nghlwb Golff Radur am 8.30 p.m.

**Gwener, 14 Mawrth**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Swper Gŵyl Ddewi, yn festri Capel Bethel, Heol Pen-llin, am 7.30 p.m. I annerch: Henry Williams.

**Gwener, 14 Chwefror**
Cymry'r Wenallt yn cyfarfod yn y Clwb Rygbi, Heol Felindre, Yr Eglwys Newydd, am 8.00 p.m. I annerch: W. J. Jones.

**Llun, 17 Mawrth**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: 'Biomecaneg a'r Peiriannydd.' Darlith gan Dr Aled Môn Roberts (Prifysgol Cymru, Caerdydd), yn Ystafell G71, Prif Adeilad Prifysgol Cymru Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m.

**Mawrth, 18 Mawrth**
Cymdeithas Nos Fawrth Eglwys Tabernacl, Yr Ais: Noson gan Gôr y Tabernacl dan arweiniad Euros Rhys Evans, am 7.30 p.m. Croeso i bawb.

**Gwener, 21 Mawrth**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: Noson dan gadeiryddiaeth Huw Ethall pan fydd rhai awduron lleol yn trafod eu gwaith, yn festri Capel Minny Street am 7.00 p.m.

**Llun, 24 Mawrth**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Eisteddfod yn Neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach, am 6.30 p.m.

**Mercher, 26 Mawrth**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd, yn festri Capel Minny Street am 2.00 p.m.

*Os ydych am gynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch y manylion at: E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 2AJ.*

**Yn ddiweddar** bu farw'r Parch. H. R. Davies, un o bregethwyr amlycaf yr Hen Gorff. Brodor o Donyrefail ydoedd, a dreuliodd flynyddoedd yn gweinidogaethu yn Salem, Aberystwyth, cyn ymddeol i fyw i'r Eglwys Newydd. Y mae ei fab, Mr Ceri Davies yn gyfarwydd i lawer yng Nghaerdydd, gan iddo fod yn fyfyriwr ac yn ddarlithydd yn y Brifysgol yng Nghaerdydd, cyn symud i'w swydd bresennol ym Mhrifysgol Cymru Abertawe. Estynnwn ein cydymdeimlad iddo ef a'r teulu yn eu colled.

**Nid yn aml** y bydd byd y dychymyg a'r byd go iawn yn cwrdd ym mywyd actor, ond dyna fu profiad Hywel Emrys o Ben-y-lan yn ddiweddar. Bu ei gymeriad teledu, Derek ym *Mhobol y Cwm*, mewn damwain ar gefn ei feic modur newydd ac fe gafodd Hywel ei hun ei anafu mewn damwain ar ei feic yntau ychydig yn gynt – a hynny yn ystod ei brawf gyrru ac ar ddiwrnod pen-blwydd ei wraig , Liz! Da deall fod Hywel a Derek yn well.

**Cydymdeimlwn** â Mrs Helen Gibbard, Pen-y-lan, a'r teulu yn y brofedigaeth o golli ei mam, Mrs Gwyneth Thomas, yn ddiweddar yn 94 oed. Roedd Mrs Thomas yn ferch i'r Parch. J. Tywi Jones, golygydd yr hen bapur Cymraeg enwog, *Y Darian*, a gyhoeddwyd yn Aberdâr, a bu Mrs Thomas yn gweithio ar un cyfnod ar ochr weinyddol y papur hwnnw. Yn ddiweddarach bu hi a'i gŵr, Leslie, yn cadw siop yn y Sblot. Yn briodol iawn, canwyd emyn ei thad, 'Rwy'n troi fy wyneb, Iesu da,/O bobman atat Ti', yn ei hangladd.

## Priodas Hapus

Yn Eglwys Dewi Sant yn ddiweddar priodwyd Iolo Roberts, gynt o Fangor, a Catrin Evans, gynt o Gaerfyrddin. Mae Iolo'n fab i'r Parchedig Eric Roberts, ficer Bangor a Catrin yn ferch i Mr Gareth Evans, prifathro Ysgol Bro Myrddin. Mae Iolo yn gweithio ar hyn o bryd yn adran gyfieithu Sir Nedd ac Afan a Catrin yn athrawes yn Adran y Gymraeg yn Ysgol Cwm Rhymni. Pob dymuniad da i'r ddau ar gychwyn eu bywyd priodasol gyda'i gilydd. Maen nhw wedi ymgartrfeu yn Nhreganna.

## Cyngerdd Pop Ysbrydoledig

Daeth tua 6,000 o ddinasyddion ifanc Caerdydd i'r Arena Ryngwladol yn ddiweddar i wrando ar dri grŵp pop Cymreig - *Manic Street Preachers*, *Catatonia* a *Super Furry Animals* - yn eu diddanu. Gitarydd *Catatonia* yw Owen Powell o'r Eglwys Newydd ac mae Huw Bunford o'r Eglwys Newydd a Guto Pryce, Rhiwbina, yn aelodau o'r *Super Furry Animals* - y tri'n gyn-ddisgyblion Ysgol Gyfun Glantaf.

**Pob dymuniad da** i Elwyn Tudno Jones wrth iddo ymddeol o fod yn is-gadeirydd Prosiectau Symonds Cyf., wedi 35 mlynedd gyda'r cwmni. Yn ystod y cyfnod hwnnw, gwelodd y cwmni a sefydlodd Idwal Symonds yn 1960 yn tyfu o fod yn gwmni bach o ymgynghorwyr yng Nghaerdydd a gyflogai pump o bobl, i fod yn rhan o grŵp rhyngwladol yn cyflogi dros fil o weithwyr.



## Cofio am Brofedigaethau

Mae'r medelwr mawr wedi bod yn trin ei bladur yn bur ddeheuig yn ddiweddar. Mae ein cydymdeimlad gyda Siân Jones, Heol Sant Ina a gollodd ei mam (oedd yn byw yn Abermo) yn ddiweddar a hefyd gydag Elfrys, Alun, Emyr, Rhun, a Meinir ar golli eu tad, y Parchedig Moelwyn Daniel a oedd wedi ymaelodi ym Methel, Penarth ar ôl ei ymddeoliad. Cydymdeimlir hefyd â Rhys Harris, prifathro Ysgol Gymraeg Treganna a'i deulu ar golli ei dad yn Nhrecelyn, ac a theulu Mr Bob Richards, Rhiwbina (gynt o Borthaethwy) a fu farw ar 27 Rhagfyr. Collodd Mrs Gwen Stanton, Penarth, ei thad a'i phriod dros gyfnod o ddyddiau; ergyd drom. Mae ein cydymdeimlad â hithau hefyd yn fawr.

## Bywyd y cylchoedd meithrin

Y cylchoedd meithrin yw rhai o lwybrau dyfodol y ddinas ac maen nhw'n wynebu problemau a llwyddiannau fel y gweddill ohonom. Mae Cylch Meithrin Heol Llangrannog wedi bod heb gartref teilwng ers amser wedi i'r capel yno gael ei dynnu i lawr. Mae mwyach wedi cartrefu yn yr hen ysgol, Llysfaen. Boed iddo ddringo o nerth i nerth yn ei gartre newydd.

Cynhaliwyd ffair Nadolig lwyddiannus yng Nghylch Meithrin Rhiwbina ddiwedd Tachwedd a daeth Siôn Corn yr holl ffordd o'r Andes i ddosbarthu anrhegion i barti a chyngerdd Nadolig y cylch, a'r lle'n orlawn o blant a rhieni.

**Llongyfarchion** i Bethan, merch Arwyn a Sylvia Jones, Y Barri, ar ei dyweddïad â Rhodri, mab Gareth a Mona Jones, Yr Eglwys Newydd.

**Llongyfarchion** i Wynford Davies, Rhiwbina ar ddathlu ei ben-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Bu'n athro Ffrangeg yn Ysgol Uwchradd Caerdydd am flynyddoedd ac mae'n dad i'r nofelydd Andrew Davies.

**Llongyfarchion** i Elis, mab Keith ac Eluned Norton, Cyncoed ar ei ddyweddïad â Helen Duckett, Plymouth.

## Cyngerdd blynyddol

Cynhaliwyd cyngerdd blynyddol Canolfan yr Urdd yn Eglwys Dewi Sant ddechrau Rhagfyr. Cafwyd canu swynol dros ben gan gôr Ysgol Bro Eirwg a Chôr Caerdydd o dan arweiniad Gwawr Owen. Adroddodd Elinor Patchel ran o 'Cerdyn Nadolig' gan Cynan a chafwyd datganiad ar yr organ gan Philip Laugharne. Dangosodd Rosemary Hann ei bod yn feistres ar yr utgorn yn ei datganiad hi. Wedi i'r Parchedig Aled Edwards, Rheithor yr Eglwys, ddiolch i bawb neilltuwyd i'r festri am baned.

## Yr iaith yn y ddinas a thu hwnt

Mae tri o lewion y ddinas wedi eu penodi i Fwrdd yr Iaith Gymraeg dros y tair blynedd nesaf, sef Ms Ann Beynon o Gorfforaeth Ddatblygu Bae Caerdydd, Jeffrey Morgan, Rheolwr-Gyfarwyddwr 'Hyder' a Rhodri Williams, o gwmni teledu 'Agenda'. Mae'n debygol y byddan nhw'n gorfod bwrw trem ar gynllun drafft y Gymraeg a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Gyngor Dinas a Sir Caerdydd. Mae gobaith y bydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ei dderbyn erbyn dechrau mis Ebrill.

## Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys

Dathlodd Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys y Nadolig â gwasanaeth arbennig yn Eglwys Bedr. Roedd yr oedfa dymhorol hon dan ofal yr aelodau.

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

## Capel Bethel, Penarth

Er nad yw'r Nadolig ond atgof mwyach, daliwn i gofio am ein 'Carolau i Bawb'. Mae'n ddigwyddiad sy'n mynd yn ôl dros ddeng mlynedd ac fe'i croesewir fel trothwy'r Nadolig. Fe'i cynhelir fel arfer ar Sul cyntaf mis Rhagfyr. Yr arweinydd gwadd eleni oedd Mr Islwyn Morgan, Caerffili, yn cael ei gynorthwyo wrth yr organ gan Alwena Harries. Gwahoddwyd côr Ysgol Gymraeg Penarth, dan ofal Mrs Gill Lloyd, i gyfrannu at y moliant. Cymerwyd y rhannau arweiniol gan y Parchedig Meurwyn Williams ac roedd y noson dan ofal Mrs Elinor Elias-Jones.

Bu cyfnod y Nadolig yn brysur ar ei hyd. Ar derfyn Rhagfyr perfformiwyd y pasiant traddodiadol gan blant yr ysgol Sul. Fe'u hyfforddwyd gan yr athrawon o dan gyfarwyddyd Mrs Cerrys Davies yr arolygydd. Wedi hynny bu'r aelodau'n cyfrannu at oedfa ar batrwm naw llith a charol. Yn blygeiniol ar fore'r Nadolig daeth cynulliad niferus i oedfa gymun o dan ofal y Parchedig Meurwyn Williams.

Bu Mr Rowland Owen yn ysgrifennydd cyffredinol eglwys Bethel am ddeng mlynedd a rhoes y gorau i'w swydd ddiwedd mis Rhagfyr pan gydnabuwyd ei wasanaeth â chyfarfod arbennig. Talwyd teyrnged iddo gan y gweinidog a chyflwynodd y trysorydd, Mr Edryd Lloyd, anrheg iddo a chafodd Mrs Moira Owen dusw o flodau. Cyfarwchyd tad-cu a mam-gu ar gân gan Meinir a Nia. Mr Alun Daniel fydd yn ei olynu.

Ddechrau Ionawr, derbyniwyd dau o blant yr eglwys yn gyflawn aelodau, Catrin Cousins o Benarth a Mari Wyn Jones o Ddinas Powys.

## Ficer newydd

Y Canon John Rowlands, warden presennol Coleg Mihangel Sant, Llandaf a deon diwinyddiaeth Prifysgol Cymru Caerdydd fydd ficer newydd plwyf yr Eglwys Newydd. Brodor o San Clêr yw'r canon. Mae dau o'i blant yn mynychu Ysgol Gyfun Glantaf. Pob dymuniad da iddo yn ei swydd newydd.

## Bethel, Rhiwbina

Gwledd i'r llygaid oedd gweld ugain o blant ac aelodau ifanc Bethel, Rhiwbina yn cymryd rhan yn y gwasanaeth arbennig Sul cynta'r Adfent. Mrs Tamsin Llwyd Graves fu'n trefnu'r gwasanaeth. Sul cynta'r flwyddyn newydd cawsom y cyfle i groesawu cyn-weinidog, Y Parchedig Emrys Wyn Evans, Tŷ-croes, Rhydaman, i arwain gwasanaeth Adnewyddu'r Cyfamod.

## Gwledd i Rieni




Cafwyd noson hyfryd un nos Sadwrn yn ystod tymor y gaeaf, yng nghwmni pobol ifanc Clwb yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg a'u rhieni. Y syniad oedd troi Canolfan yr Urdd yn dŷ bwyta crand! Gwahoddwyd y rhieni i gael gwledd wedi ei pharatoi a'i gweini gan eu plant. Paratowyd bwyd blasus a thrawsnewidiwyd un o ystafelloedd y Ganolfan gan lieiniau bwrdd, canhwyllau, blodau a.y.y.b. Gwisgodd y bobol ifanc yn hynod o daclus (nid wy'n cofio gweld cymaint o fechgyn ifanc yn gwisgo dici-bo o'r blaen!) a bu gweini proffesiynol iawn wrth y byrddau. Roedd yn bleser gweld y brwdfrydedd a ddangoswyd ar bob lefel - o baratoi gwahoddiadau, i roi syniadau ynghylch y bwyd, o'r gweini ar y noson. i olchi'r llestri. Ar ddiwedd y noson cafwyd anerchiad byr gan Gwydion Lewis, arweinydd y Clwb, yn sôn am y wledd sydd wedi ei pharatoi ar ein cyfer yn y nefoedd.

**Siriol Davies**



Dafydd Ellis a Hywel Williams yn gweini yn y wledd

**Cofiwch** am foreau coffi Capel y Tabernacl ar yr Ais bob bore Sadwrn rhwng 10 a 12 o'r gloch. Mae elw'r boreau hyn yn mynd at achosion da.

**Bu farw** Mr Glyndwr Williams, a fu am flynyddoedd yn organydd ym Methlehem, Gwaelod-y-garth, cyn gorfod rhoi'r gorau oherwydd cyflwr ei iechyd. Cydymdeimlwn â'i weddw, Ann, ei blant, Mair a Gareth, a'r teulu oll yn eu colled.

## Cofio Ryan

Ugain mlynedd wedi ei farwolaeth fe fydd bywyd a doniau Ryan Davies yn cael eu dathlu mewn noson arbennig o raglenni gan BBC Cymru ar gyfer S4C ar 21 Ebrill.

Mae'r BBC yn awyddus i glywed gan bobl sydd ag atgofion neu straeon difyr am Ryan Davies. Os oes rhai o'n darllenwyr yn barod i helpu gellir cysylltu â'r tîm cynhyrchu yn BBC Cymru ar (01222) 322848.

**Llongyfarchion** i Ceri a Rhys Parry, Heol Felindre ar enedigaeth eu merch, Loti Innes Parry rai dyddiau cyn y Nadolig - anrheg Nadolig go iawn i'r fam-gu, Anne Innes a'r taid a'r nain, Emrys ac Audrey Parry. Mae'r brawd mawr, Sam, wrth ei fodd gyda'i chwaer fach newydd.

**Llongyfarchion** i Haydn Denman, Adamsdown a'i bartner ar enedigaeth mab yn Rhagfyr.

## COFIO TAID



Ychydig yn ôl bu farw'r Athro Emeritus D.E. Parry Williams. Fe'i ganed yn 1900 yn fab i athro ysgol o Lyn-nedd, ac er iddo raddio mewn Cemeg, fel Pennaeth yr Adran Gerddoriaeth yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor yn bennaf y byddwn yn ei gofio.

Gofynnwyd i'w wyres, Rhiannon Lloyd Jones, adrodd ychydig o'i chofion am Taid:

"Rwy'n ei gofio fel dyn â diddordebau eang. Ar y naill law byddai'n awyddus i weld fy ngwerslyfrau mathemateg a gwyddoniaeth, ac ar y llaw arall byddai'n trafod yn frwd waith cyfansoddwyr o Bach i Hindemith. Roedd yn byw ar ei ben ei hun yng Nghyncoed tan iddo gyrraedd ei nawdegau, a chawn fy ngwahodd yno i de yn aml. Mynnai goginio crempog i mi tra byddwn innau'n canu ei biano!

"Adeiladodd dŷ dol gwych - gyda goleuadau trydan - i ni'r wyresau pan oeddem yn blant, ac erbyn heddiw mae'r tŷ hwnnw'n difyrru'r genhedlaeth nesaf o blant."

**Bedyddiwyd** pedwar plentyn mewn oedfaon yn Eglwys y Crwys ychydig cyn y Nadolig, sef Ianto, mab Catrin a Mark Redknapp, Pen-y-lan; Tomos, mab Catrin a Courtenay Phillips, Yr Eglwys Newydd; Aled, mab Bethan a Huw Herbert, Creigiau; a Rhiannon, merch Brengain ac Aron Evans, Yr Eglwys Newydd. Pob dymuniad da iddynt oll.

**Estynnwn** ein cydymdeimlad i Ann a Sera Beynon yn y brofedigaeth o golli eu hewythr, R. Gordon Williams ('Bobi Gordon'), Pen-y-groes, a fu farw'n ddiweddar yn 87 oed. Bydd llawer o gyn-wersyllwyr Gwersyll Llangrannog ag atgofion melys am Bobi Gordon, a fu'n un o bileri'r gwersyll am flynyddoedd maith.

## 'Pleidiol wyf i'm gwlad'

Y tro nesaf y byddwch yn edrych ar y geiriau 'Pleidiol wyf i'm gwlad' ar ymyl eich darn punt, byddwch yn edrych ar eiriau a ddaeth yno yn ganlyniad i awgrym gan y diweddar Glyn Owen, Radur, a fu farw fis Medi diwethaf yn 70 oed. Brodor o Borth-y-gest, Porthmadog oedd Glyn Owen, a ddringodd i swyddi o ddylanwad yn y gwasanaeth sifil yn Llundain, gan gynnwys cyfnod yn ysgrifennydd personol i Syr Solly Zuckerman, Prif Ymgynghorydd Gwyddonol y Llywodraeth ar y pryd. Yna dychwelodd i Gymru, i'r Swyddfa Gymreig yng Nghaerdydd. Bu'n rhan o bwyllgor bychan a ffurfiwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol i awgrymu geiriad ar gyfer y darn punt Cymreig, a'i awgrym ef a gariodd y dydd. Fel yn Llundain cyn hynny, bu Glyn Owen yn weithgar ym mywyd Cymraeg a chrefyddol Caerdydd, yn ddiacon yn Eglwys y Tabernacl ac yn drysorydd y Cymrodorion, nes ei oddiweddyd gan afiechyd blin. Estynnwn ein cydymdeimlad i'w deulu yn eu profedigaeth.

## RHAGOR O ANTURIAETHAU ALUN GREEDY A'I LONG, SS *HIRAETH*

Pe byddech yn bwriadu hwylio o Brydain i America Ganol, byddech yn dewis cwrs lle byddai'r gwyntoedd a'r cerrynt arferol yn ffafriol, ac yn dewis adeg ddoeth o'r flwyddyn i fynd. Dyna pam, wrth ddechrau ar y daith hon, yr hwyliais tua mil o ffilltiroedd i'r de cyn troi tua'r gorllewin, a dyna pam mae'r stori hon yn dilyn hynt *Hiraeth* o Falmouth yng Nghernyw i Hierro, ynys ger arfordir Morocco.

Tua diwedd mis Ionawr y llynedd, felly, ar ôl sgrifennu pwt o ewyllys, codais yr hwyliau, gollyngais y rhaffau a'm clymai wrth yr hen fyd yma, a llithrais yn dawel tua genau harbwr bach Estanca. Doedd dim llong yn yr harbwr na neb yno i weld fy ymadawiad di-stŵr - neb ond cawr o forfil â deigryn yn ei lygad. Chwythodd yntau ei ffarwel trist wrth basio *Hiraeth* ar ei ffordd i'r môr mawr.

Ond eto doeddwn i ddim yn rhydd. Ychydig filltiroedd ar hyd yr arfordir, daeth galwad ar y radio gan gwch Ffrengig am help. Doedd ganddo ddim gwynt, roedd yn beryglus o agos i'r creigiau, a'i injan yn gwrthod cychwyn. Tynnais y Ffrancwr i borthladd bychan Restinga, ac wedyn i ffwrdd â mi eto.

Roedd *Hiraeth* wrth ei bodd mewn môr garw, ac er fy mod yn cael fy ysgwyd yn ddi-baid, roeddwn innau'n mwynhau hefyd. Roeddwn wrthi'n ddi-baid gyda'r tasgau hanfodol - nafigeiddio, coginio, ysgrifennu'r log, newid hwyliau a chywiro'r llyw o dro i dro. Ddydd a nos byddai'r llywio yn nwylo medrus "y Capten Alun", neu "Cap" fel y galwn ef. Peilot awtomatig oedd Cap. Roedd yn hynod o effeithiol, ond pan fyddai'r gwynt yn newid cyfeiriad, byddai'n rhaid cywiro Cap.

Dysgais yn fuan fod rhaid cadw'r cwch yn syth o flaen tonnau mawrion, neu byddai *Hiraeth* yn "brotsio" - yn cael ei hyrddio ar ei hochr a'r don nesaf wedyn yn bygwth ein gyrru i lawr. Digwyddodd hynny ddwywaith neu dair, ond llwyddais bob tro i droi *Hiraeth* yn ôl ar ei chwrs. Ond y fath lanast wedyn!

Syrthiodd polyn pwysig o'r bwrdd i'r môr un tro, a bu'n rhaid i mi droi i ddannedd y tonnau mynyddig i fynd nôl i'w achub. Sylweddolais bryd hynny pam na welais yr un cwrcyn arall yn hwylio tua'r dwyrain y ffordd honno!

Clywn raglen o Gymru ar Wasanaeth Byd y BBC unwaith yr wythnos. Prin oedd y cynnwys diwylliannol, ond roedd yn dda clywed am y digwyddiadau yng Nghymru a chael dilyn hynt fy hen glwb rygbi, Caerdydd, a chricedwyr Morgannwg a Lloegr.

(i'w barhau)

* * *

## Cangen Newydd o Blaid Cymru

Gwireddwyd dyhead y diweddar Malcolm Thomas pan sefydlwyd cangen newydd o Blaid Cymru yng Ngwenfô, fis Rhagfyr. Bwriad y gangen yw cwrdd yn fisol, ac ymdrin â materion lleol yn ogystal â rhai cenedlaethol. Ysgrifennydd y gangen yw Euros Rhys Evans.

# YSGOL GLANTAF

## Pêl-fasged

Llongyfarchiadau i **Sion Ellis Williams** ar gael ei ddewis i chwarae pêl-fasged dros Gymru yn y tîm dan 16 oed, yn erbyn Lloegr, Yr Alban ac Iwerddon ddiwedd mis Chwefror.

Llongyfarchiadau hefyd i **Elen Beth Morris** a gafodd ei dewis i chwarae pêl-fasged dros Gymru yn y timoedd dan 16 a 18 oed. Yn y gêm yn erbyn Iwerddon sgoriodd Elen y nifer uchaf o bwyntiau.

## Caergrawnt a Rhydychen

Llongyfarchiadau i **Lisa Martin, Jonathon Owens, Catrin Thomas** ac **Ellis Thomas** ar ennill lle i astudio ym mhrifysgolion Caergrawnt a Rhydychen.

## Hanes rhai o gyn-ddisgyblion Glantaf

Wyneb newydd y gyfres newydd *'Ffermio'* yw **Rachel Garside**.

Chwaraeodd **Matthew Rhys Evans** un o'r prif rannau yn nrama newydd John Owen *'Bydd yn Wrol'* a ddarlledwyd am y tro cyntaf Ddydd Nadolig 1996.

Cafodd **Guto Thomas** ei benodi'n diwtor yn darlithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol yn Aberystwyth.

Enillodd **Siôn Lloyd** le yn y Guildhall, Llundain.




Cafodd **Mali Harries** ei dewis i chwarae rhan Juliet yn nrama Shakespeare *'Romeo and Juliet'* yn Theatr y 'Swan', Caerwrangon.

* * *

**LLYGREDD**

Mynydd o boteli gwag,
Bocsys polysteirin,
Bagiau plastig, a phob math o sbwriel
Yn hel mewn corneli a gwteri strydoedd.
Y byd fel un bin sbwriel mawr,
Yn tagu dan lygredd.

Yr awyr yn dew gan fwg budr
Yn llenwi pob man.
Ceir yn pesychu nwyon gwenwynig i'n hysgyfaint.

Yr adar yn hedfan yn uwch i ffeindio aer pur.

Holl genedlaethau'r byd yn ffrwtian yn y gwres tanbaid.
Yr osôn y dibynnwn arno'n tyfu,
Yn tyfu'n llai bob dydd.

Pa bryd y dysgwn barchu'r byd hwn
Yn lle'i ladd gan ein holl fryntni?

*Elen Evans* (Blwyddyn 9)

# EIN HYSGOLION CYNRADD CYMRAEG dan ofal B.D. Harries

## BOS MELIN GRUFFYDD

Nos Iau a nos Wener, 5-6 Rhagfyr, roedd Theatr Reardon Smith dan ei sang, a chafwyd 'gwledd llwyfan', fel yr oedd y rhaglen yn ei haddo, wrth i Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd roi perfformiad gwefreiddiol o *'Y Bos'*. Fel yr awgryma teitl y sioe, gwerthfawrogiad oedd y rhaglen o gyfraniad sylweddol y prifathro, Mr Gareth Evans, dros 17 mlynedd ac yntau'n ymddeol ar ddiwedd y tymor.

Yn y sioe gwelwn yr athrawon a'r disgyblion yn cynnal ymarfer olaf y *'Nutcracker Suite'* ar gyfer eu sioe Nadolig. Mae'r prifathro yn paratoi ei araith olaf gan ei fod yn ymddeol ddiwedd y tymor, ac aiff i bori yn Llyfr Log yr ysgol am ysbrydoliaeth, a hynny, yn naturiol, yn dod â llu o atgofion yn ôl iddo.

Fel y gwelir, roedd hyn yn gynllun uchelgeisiol iawn, ond, yn sicr, bu'n llwyddiant oherwydd y trefniant manwl (hyn yn anghenrheidiol gan fod pob plentyn yn yr Adran Iau yn cymryd rhan), y paratoi trwyadl a doniau arbennig a brwdfrydedd amlwg y plant. Cafwyd amrywiaeth eang o gerddoriaeth yn y sioe, gan gynnwys y clasuron (Tzaikovsky), y traddodiadol (gwerin a cherdd dant) a'r ysgafn (darnau pop a jazz). Difyr dros ben oedd gweld y plant yn portreadu eu hathrawon mor fanwl-gywir!

Cawsom y pleser o weld tîm enfawr yn cydweithio'n berffaith, ac annheg, felly, fyddai cyfeirio at unigolion gan fod pob aelod o'r staff a phob plentyn wedi cyfrannu at lwyddiant y perfformiadau. Ond, er hynny, cawn hi'n amhosibl i beidio â chyfeirio at bortread Daniel Hefin o'r prifathro go-iawn, yn enwedig pan haerodd gydag argyhoeddiad *'They* (h.y. yr athrawon) *did it my way'*, a chyflwyniad Hannah Daniel o *'Golli Iaith'* gyda chyflwynydd gwreiddiol y gân, Heather Jones, yn y gynulleidfa.

Llongyfarchiadau didwyll iawn i bob un a gymerodd ran, a da oedd gweld eu bod i gyd yn cael eu henwi yn y rhaglen.

Ar ddiwedd y ddau berfformiad, cyflwynwyd anrhegion i'r prifathro gan Mr Rhodri Lloyd, Cadeirydd y Llywodraethwyr, a Mr Delwyn Siôn, Cadeirydd y Gymdeithas Rhieni, ac roedd hi'n amlwg wrth ymateb y bos fod yr holl weithgareddau wedi'i blesio'n fawr.

Carem ninnau ddiolch i Mr Gareth Evans am ei gyfraniad nodedig i addysg Gymraeg yn y ddinas dros gyfnod hir, ac ymuno â'r rhieni, yr athrawon, a'r plant i ddymuno iddo ymddeoliad hapus. Y mae'n sicr yn ei haeddu.

## Côr Newydd Prysur

Oddi ar ffurfio Côr Adran y Gymraeg ym Mhrifysgol Cymru Caerdydd ddechrau'r flwyddyn academaidd eleni, rydym wedi bod yn brysur iawn ac eisoes wedi cymryd rhan mewn dau berfformiad cyhoeddus.

Am bump o'r gloch bob nos Iau ers dechrau tymor yr Hydref, mae tua phump ar hugain ohonom, yn fyfyrwyr ac yn aelodau o staff yr Adran yn cyfarfod yn un o neuaddau darlithio yr Adran Gerdd i ymarfer.

Y ferch sy'n gyfrifol am ein cadw ni i gyd mewn trefn, ac mewn tiwn, yw Sioned James. Mae Sioned yn fyfyrwraig yn y drydedd flwyddyn ac yn astudio ar gyfer gradd yn y Gymraeg. Mae hi'n brofiadol ei hun fel unawdydd lleisiol.

O dan ei harweiniad, fe'n gwahoddwyd gan Eglwys Minny Street i gynnal noson o gân nos Fawrth, 5 Tachwedd. Cafwyd noson ddifyr o eitemau gan y côr yn ogystal â phedwarawd, unawdau lleisiol ac offerynnol, a rhai eitemau llafar.

Wedi llwyddiant y noson honno, fe'n gwahoddwyd yn ôl i Minny Street i ymuno â'r gynulleidfa mewn gwasanaeth ieuenctid, nos Sul, 8 Rhagfyr. Cafwyd rhaglen Nadoligaidd ei naws ac adroddiadau gan aelodau iau'r capel ac eitemau gan y côr. Bu'r noson yn un hynod bleserus a ysgogodd ysbryd y Nadolig yn mhob un a fu'n bresennol. Hoffai'r côr ddiolch i aelodau'r capel am eu gwahoddiad ac am ddarparu gwledd o de a mins peis i ni ar ôl y gwasanaeth.

Wedi llwyddiant dau berfformiad cyhoeddus cyntaf Côr yr Adran, ein gobaith yw gwneud y côr yn rhywbeth sefydlog a chyson, a chynnal llawer noswaith debyg.

**Delyth Wyn Jones**

**Bu awduron Caerdydd** yn bur gynhyrchiol cyn y Nadolig. Cyhoeddwyd *Penbleth John Aaron a Straeon Eraill*, o waith Mrs Glennys Roberts, Yr Eglwys Newydd, gan Wasg Gwynedd (pris £3.95). Enillodd stori gynta'r gyfrol wobr yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Colwyn 1995. Cyhoeddodd Barddas gyfrol o farddoniaeth gan Gwyneth Lewis, *Cyfrif Un* ac *Un yn Dri* (£4.95). Cafwyd cyfrol arall o ysgrifau blasus ac amrywiol y Parch. T. J. Davies, sef *Ysgub o'r Wisgon* (£4.25). Os na wyddoch ystyr y gair 'wisgon', prynwch y gyfrol! Gwasg Carreg Gwalch a gyhoeddodd gyfrol T.J., a hwy hefyd yw cyhoeddwyr y gyfrol *Ceffylau Dur: Hen Beiriannau Amaethyddol*(£3.75), sy'n ffrwyth gwaith ymchwil Elfyn Scourfield o'r Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan i hanes gwneuthurwyr peiriannau amaethyddol ledled Cymru.

Mae gan un o gyfrolau diweddar Gwasg Carreg Gwalch gysylltiad arbennig â Chaerdydd, sef *Ar Log ers 20 Mlynedd* (£5). Hanes y grŵp gwerin Cymraeg poblogaidd 'Ar Log', a ffurfiwyd yn 1976, yw cynnwys y gyfrol, a'r hanes hwnnw'n cael ei adrodd yn ddifyr trwy gyfres o gyfweliadau ag aelodau'r grŵp gan Lyn Ebenezer. Mae i Gaerdydd le amlwg yn yr hanes, gan fod dau o aelodau gwreiddiol y grŵp, Iolo Jones a Dave Burns, yn frodorion o'r cylch, a'r rhan fwyaf o'r lleill wedi bod yn ddinasyddion ar ryw adeg neu'i gilydd.

**Mae Cymry'r Wenallt,** sef clwb Cymraeg i ddynion, yn chwilio am ragor o aelodau ac felly bydd croeso cynnes i unrhyw un ddod i'r cyfarfodydd a gynhelir ar ail nos Wener y mis yn y Clwb Rygbi yn Heol Felindre, Yr Eglwys Newydd am 8 p.m. Am ragor o wybodaeth cysyllter â'r ysgrifennydd, John M. Rees (482922).

## Shirley yn 60 oed




Bu Shirley Bassey, y gantores enwog o Gaerdydd, yn dathlu ei phen-blwydd yn 60 oed yn ddiweddar. Ei hathrawes Gymraeg pan fynychai'r ysgol yn y Sblot oedd y ddiweddar Enid Jones Davies, a fu wedi hynny yn brifathrawes Ysgol Bryntaf am flynyddoedd. Hoffai adrodd fel y dysgodd Shirley i ganu 'Calon Lân'.

## Cyngerdd yn yr Eglwys Newydd

Cynhaliodd Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd ei Chyngerdd Flynyddol ym Methel, Eglwys y Bedyddwyr yn yr Eglwys Newydd ar 13 Rhagfyr 1996 - y noson o dan ofal Côr Plant Caerdydd a Thannau Taf.

Mae pob aelod o Gôr y Plant ac o Dannau Taf, sy o dan hyfforddiant trylwyr Mrs Mair Robins, Mrs Sandra Semmens a Mrs Siân Thomas, yn ddisgyblion mewn Ysgolion Cymraeg yn yr ardal. Cafwyd eitemau mewn pedair iaith - Cymraeg, Saesneg, Lladin ac Almaeneg.

Roedd y gyngerdd o dan lywyddiaeth Mr Delwyn Siôn a roddodd ddatganiad gwefreiddiol o un o'i gyfansoddiadau ef ei hun - 'Un Seren'.

O ganlyniad i gasgliad a wnaed yn ystod y gyngerdd, cyflwynwyd siec o £320 gan Lywydd y Gymdeithas, Mr John Meredith Jones, i Mrs Linda Bridge o Bobath Cymru.

Mae'r Gymdeithas yn ddyledus i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y noson - yn enwedig i swyddogion Eglwys Bethel am eu parodrwydd inni ddefnyddio'u cyfleusterau.

Bydd y Gyngerdd Flynyddol nesaf ar 12 Rhagfyr 1997. Cofiwch nodi'r dyddiad yn eich dyddiadur!

**Megan Williams** (Ysgrifennydd)

## 'This is Your Life'

Gwrthrych *This is Your Life* yn ddiweddar oedd yr athletwraig enwog o Gaerdydd, Tanni Grey. Bu ei mam, Sulwen, a'i nain a'i thaid, Mr a Mrs William Jones, yn aelodau yng Nghapel y Crwys am flynyddoedd. I goroni'r flwyddyn, daeth Tanni'n ail i Ryan Giggs yng ngystadleuaeth campwr y flwyddyn y BBC yn Ionawr. Pobl lwc i Tanni (Carys gynt!) yn y dyfodol.

## 'House of America'

Dangoswyd *House of America*, ar HTV yn ddiweddar, ffilm a seiliwyd ar ddrama Ed Thomas, Ystradgynlais. Y cyfarwyddwr oedd Marc Evans sydd wedi ennill nifer o wobrau ym myd y ffilm yn ddiweddar. Mae'n fab i Siarlys a Barbara Evans, Rhiwbina.

## Messiah

Dyw'r un Nadolig yn gyflawn heb berfformiad o *Messiah* (Handel) a chafwyd perfformiad ysbrydoledig gan Gôr Godre'r Garth (arweinydd Wil Morus Jones) yng nghapel y Tabernacl, Yr Ais. Yr unawdwyr oedd Siriol Williams, Elizabeth Stevens, Roland George a Timothy Evans. Yr organydd oedd David Thomas. Noddwyd y cyfan gan Deledu Opus ac aiff yr elw at gronfa Eisteddfod Genedlaethol Bro Ogwr 1998.

# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies




## Ryan Giggs




*Dyma bortread* ***Ian Gwyn Hughes*** *o'r chwaraewr a enillodd dlws BBC Cymru 'Prif Gampwr y Flwyddyn':*

Dair blynedd ar hugain yn ôl, ganwyd Ryan Giggs yn Ysbyty Dewi Sant, yng Nghaerdydd. Roedd yn fab i chwaraewr rygbi talentog, Danny Wilson, ac yn fuan wedyn symudodd y teulu i ardal Salford, wedi i'w dad gael cynnig chwarae rygbi tri-ar-ddeg i'r clwb.

Yn anffodus i Ryan, chafodd y tad ddim cymaint â hynny o ddylanwad ar ei fab yn sgil bywyd personol cythryblus, a dweud y lleiaf, a arweiniodd at ysgariad a Ryan yn byw gyda'i fam. Ond dysgu'r gwersi a wnaeth y bachgen ifanc diymhongar, a lle gwell na gyda Chlwb Manchester United, lle roedd Alex Ferguson yn ail dad iddo i bob pwrpas. Roedd ei dalent yn amlwg yn gynnar, ac yn fuan roedd yn gapten ar dîm ysgolion Lloegr dan bymtheg yn erbyn Cymru yn Yoevil, a Lloegr yn ennill o dair i ddim. Ond cadw mewn cysylltiad agos â'r teulu yng Nghaerdydd a wnaeth, a doedd byth amheuaeth mai Cymro oedd. Cafodd ei gadw rhag y wasg gan ei reolwr, a oedd yn awyddus i beidio â gweld y bachgen yn dilyn yr un trywydd â George Best, un o arwyr y clwb yn y gorffennol.

Disgleiriodd yn gyson dros ei glwb, a doedd hi fawr o syndod ym mis Hydref 1991 iddo ddod i'r maes yn erbyn yr Almaen yn Nuremburg, ac yntau'n ddwy ar bymtheg oed yn unig, y chwaraewr ieuengaf i gynrychioli Cymru.

Enillodd dlysau di-ri' gyda'i glwb a hefyd cael ei wobrwyo'n bersonol. Ond parhau yn ŵr ifanc tawel y mae, yn gwmni da ac yn barod i siarad am bobl eraill yn hytrach na sôn am ei lwyddiannau ei hun.




Ryan Giggs yn derbyn y tlws *Llun: BBC Cymru*

Yr unig drueni yw, gan ei fod yn Gymro, mae'n annhebyg iawn y bydd ei dalent aruthrol yn cael ei gweld ar brif lwyfannau pêl-droed y byd dros y blynyddoedd nesaf.

* * * *

## Rygbi



Ar ôl colli ar y Maes Cenedlaethol yn erbyn Pontypridd ddiwedd y flwyddyn o 37 pwynt i 23 (ac o bedwar cais i ddau) yr oedd safle Caerdydd yn y Cynghrair Cenedlaethol yn fregus iawn. Pedwerydd oeddynt â thri phwynt yn llai na Phen-y-bont a thri phwynt ar ddeg yn llai nag Abertawe oedd ar frig yr Adran Gyntaf. Pontypridd oedd yn ail â 27 pwynt, ond yr oedd Caerdydd wedi chwarae un ornest yn llai na'r tri chlwb arall. Mae hi'n holl bwysig i glwb orffen y tymor ymhlith y pedwar uchaf i sicrhau lle'r tymor nesaf ym mhrif gystadleuaeth clybiau Ewrop - yn wir, mae hi'n bosibl mai tri'n unig o'n clybiau a gaiff ymuno â'r gystadleuaeth honno os derbynnir cynnig y Ffrancod. Ni wyddwn ai Caerdydd ai Casnewydd a gyrhaeddai seithfed rownd Cwpan Bwrdd Trydan y Deheubarth (SWALEC), ond disgwylir mai Caerdydd a ymddangosai ynddi gan nad oedd Casnewydd yn chwarae'n dda ar y pryd. Roedd problemau lu gan y Brifddinas - ymhlith y blaenwyr gan mwyaf. Roedd angen clo arnynt a allai gyfrannu mwy na Derwyn Jones a John Wakeford yn y chwarae rhydd, a phrop pen tyn a allai drafod y bêl; cafodd eu hwyth wers lem gan wyth Pontypridd ar sut i gydchwarae a hyrddio ymlaen. Collodd Leigh Davies ei ffordd ar ganol y maes, ac ni wn a adennill ef ei ddisgleirdeb y tymor hwn. Rhaid i rywun, gyda llaw, edmygu Pontypridd yn fawr iawn; mae'r rhan fwyaf o'u chwaraewyr yn wŷr lleol, ac eto maen nhw'n llwyddo i chwarae rygbi deniadol ac effeithiol dros ben. Hyd y gwelaf fi ganol Ionawr, nhw sy'n debygol o ennill y ddwy gystadleuaeth y tymor hwn.

# Dysgwyr y Ddinas

dan ofal Gill Stephen

## CHRIS REES

*Yn ddiweddar ymddeolodd Chris Rees fel Cyfarwyddwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion sy'n rhan o Adran y Gymraeg ym Mhrifysgol Cymru Caerdydd. Dyma deyrnged ei gyfaill, **Cennard Davies**, a ymddangosodd yn wreiddiol yn **Y Tiwtor**.*

Chris Rees oedd un o'r rhai cyntaf y cyfarfûm ag ef pan es yn fyfyriwr i Goleg Prifysgol Abertawe ym mis Medi 1956. Roeddwn yn gyfarwydd â'i enw cyn hynny gan ei fod wedi cael cryn sylw yn y wasg wrth iddo gael ei garcharu am wrthod ymuno â byddin Lloegr am resymau gwleidyddol a mentro sefyll etholiad dros Blaid Cymru yn etholaeth Gŵyr tra oedd yng ngharchar Abertawe.

Oherwydd diffyg cyfleusterau a diffyg statws y Gymraeg ar y pryd, ychydig iawn a lwyddai i'w dysgu'n ail iaith. Rhyfeddodau prin oedd pobl fel Ted Millward, Bobi Jones ac Alwyn Prosser a oedd yn gynnyrch stabl lwyddiannus Elvet Thomas yn Ysgol Cathays, Caerdydd; ond roedd Chris, ar ryw olwg, yn fwy o ryfeddod fyth gan ei fod wedi llwyddo i ddysgu'r iaith ar ei ben ei hun tra oedd yn ddisgybl mewn ysgol breswyl anghydffurfiol yn Taunton.

Mae'n debyg bod ei dad-cu yn medru'r Gymraeg, ond erbyn iddo ef, yr ifancaf o saith o blant, gyrraedd yr aelwyd yn Eaton Crescent, Yr Uplands, Abertawe, prin bod llawer o ddylanwad yr iaith yn aros. Fodd bynnag, wrth i Chris ddychwelyd yn fyfyriwr prifysgol i'w dref enedigol, roedd e eisoes wedi penderfynu dilyn cwrs gradd anrhydedd yn y Gymraeg o dan gyfarwyddyd yr Athro Stephen J. Williams. Wedi cyflawni'r gamp honno, aeth ymlaen i gwblhau gradd anrhydedd mewn Ffrangeg ac ennill gradd uwch am astudiaeth o dafodiaith ardal Felindre, Abertawe.

### Cymro i'r Carn

I ni, lasfyfyrwyr y flwyddyn gyntaf, roedd Chris yn ymgorfforiad o gadernid cenedlaethol mewn cyfnod pan oedd pob agwedd ar ein cenedligrwydd o dan fygythiad. Bu, bob amser, yn fodlon dangos ei ochr yn wleidyddol gan ymladd etholiadau dros Blaid Cymru yng Ngŵyr, Dwyrain Abertawe a dwywaith ym Merthyr; ond er gwaethaf yr holl weithgarwch gwleidyddol hwn roedd yn amlwg i bawb a'i hadnabu taw'r iaith oedd prif gonsarn Chris. Gwelai, yn ogystal, fod gan addysg ran allweddol i'w chwarae yn adferiad y Gymraeg ac yn y maes hwnnw y gwnaeth ei brif gyfraniad.

Ar ôl ymadael â Choleg Prifysgol Abertawe fe'i penodwyd yn bennaeth yr Adran Ffrangeg yn Ysgol Uwchradd Gymraeg Glan Clwyd - yr ysgol gyntaf o'i math i'w sefydlu yng Nghymru. Symud ar ôl hynny i Fryn-mawr i ddysgu Cymraeg yn ail iaith ac ymuno wedyn â CBAC, yn aelod o'r adran oedd yn gyfrifol am gyhoeddi llyfrau Cymraeg. Daeth yn amlwg i'r rheiny ohonom oedd yn ei adnabod yn y cyfnod hwn nad oedd y swydd olaf hon wrth ei fodd. Dysgu oedd ei ddiléit a chafodd gyfle i ailgydio yn y diddordeb hwnnw pan gafodd ei benodi'n bennaeth ar y Ganolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion ym Mhrifysgol Cymru Caerdydd

### Cyfraniad Sylweddol

Ar hyd y blynyddoedd bu ei lafur yno yn ddiflino ac yn arloesol. Un o'i brif gymwynasau oedd trefnu i un o staff yr Asiantaeth Iddewig ddod i annerch athrawon iaith yng Nghaerdydd. O'r cyfarfod hwnnw y deilliodd y syniad o sefydlu cyrsiau Wlpan - un o'r datblygiadau pwysicaf o safbwynt dysgu'r Gymraeg yn ail iaith. Chwaraeodd Chris ran amlwg hefyd yn natblygu Cwrs Haf Llanbed a thrwy'r amser roedd y Ganolfan yng Nghaerdydd yn arloesi trwy gynnig cyrsiau o bob math ar wahanol adegau o'r dydd.

Yr hyn a sbardunai Chris drwy'r cwbl oedd ei gred ddiysgog taw'r Gymraeg yw hanfod ein cenedligrwydd a'i diddordeb ysol mewn ieithoedd fel y cyfryw. Unwaith, ces i'r pleser o dreulio wythnos yn ei gwmni yng Ngwlad y Basg a thrwy gydol y daith dibynnai'r grŵp yr oeddem yn rhan ohono ar allu anhygoel Chris fel cyfieithydd. Mae iaith wedi ei gyfareddu ac mae ganddo'r ddawn i drosglwyddo ei frwdfrydedd i eraill. Dyna sy'n ei wneud yn athro mor llwyddiannus.

O fentro y tu ôl i'r ymddangosiad syber, difrifol ceir llawer i'n synnu. Pwy fyddai'n credu y delai'r crwt a gyfrifai Michael Heseltine yn un o'i gyfeillion bore oes yn gymaint o genedlaetholwr? Faint sy'n gwybod iddo ennill gwobr am ysgrifennu nofel, *Ewfforia Ewropeaidd*? Person tawel, diymhongar yw Chris ond mae ganddo weledigaeth glir ac argyhoeddiadau dwfn a'r ddeubeth hynny sydd wedi ei gynnal ar hyd y daith. Diolchwn iddo am ei gyngor, ei gyfeillgarwch a'i gyfraniad disglair i faes dysgu Cymraeg a dymuno iddo ymddeoliad hir a hapus. Beth bynnag a wna yn ystod ei oriau hamdden bellach, gallwn fentro y bydd yn dal i ddysgu Cymraeg oherwydd yn y gweithgarwch hwnnw aeth ei waith a'i bleser yn un.

## DYDDIADUR O DDIGWYDDIADAU - CAERDYDD A'R FRO

| | |
|---|---|
| **Pob dydd Mercher** 12.00 - 2.00pm | Clwb Coffi, Clwb Ifor Bach, Womanby St., Caerdydd Ffoniwch Christine Franks 01222 513046 |
| **Pob nos Iau** yn ystod tymor yr ysgol 9.15pm | Mae nifer o Gymry Cymraeg a dysgwyr yn cwrdd i sgwrsio'n anffurfiol yn lolfa Gwesty Parc y Rhath (Roath Park Hotel) Ffoniwch Pete 763426 |
| **Pob bore Gwener** 9.30 - 11.30am | Clwb Coffi y Fro, Wesley Court, Dinas Powys Ffoniwch Christine Franks 01222 513046 |
| **Pob dydd Gwener** 1.00pm - 3.00pm | Clwb Coffi Canolfan yr Urdd, Caerdydd Ffoniwch Christine Franks 513046 |
| **Pob dydd Gwener** Amser cinio | Mae nifer o Gymry Cymraeg a dysgwyr yn cwrdd i sgwrsio'n anffurfiol yn lolfa y 'Duke of Wellington' yn Y Bont-faen. |
| **Pob bore Sadwrn** 10.45am | Mae cyfle arall i ymarfer eich Cymraeg dros baned o goffi yn Festri'r Tabernacl, Yr Ais (The Hayes), Caerdydd. Ffoniwch Chris Rees-Woodward 499593 |
| **Pob bore Sadwrn** 11.00am - 2.00pm | Clwb Sadwrn ACEN, y cyfle i ymarfer eich Cymraeg a chwrdd â ffrindiau newydd. Ffoniwch 01222 665455 am fanylion pellach |
| **Yn ôl y galw** | Cymorthfeydd - cyfle i ddysgwyr neu diwtoriaid drafod eu problemau gyda gwaith neu gyrsiau. Ffoniwch Gill Stephen 01222 250439 (Trefnwyd gan Gonsortiwm Caerdydd a'r Fro, Cymraeg i Oedolion) |

**AM FANYLION PELLACH FFONIWCH GILL STEPHEN - 250439**

CYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG

# SWYDDOGION MAES

Mae Cymdeithas yr Iaith yn chwilio am ddau berson ifanc i weithio fel Swyddogion Maes, y naill o'n Swyddfa yn y Gogledd a'r llall o'n Swyddfa yng Nghaerdydd.

Cyflog: £10,000 i £12,000 y flwyddyn

Y gallu i yrru car yn fanteisiol.

Ceisiadau drwy lythyr i

**Swyddfa Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Pen Roc, Rhodfa'r Môr, Aberystwyth.**

**Ffôn: 01970 624501**

erbyn Dydd Gwener, Chwefror 7fed, 1997

DALIER SYLW

# b, o n a, n s a

## gan Meic Povey

**" Fyddai ennill Y Loteri yn newid dim arna'i ! "**

Tybed pa effaith fyddai ennill Y Loteri yn gael ar fywydau teulu'r Jonesus ~ teulu cyffredin sy'n byw bywyd digon cyffredin yn ymyl Caernarfon .......... hynny yw, nes i fys lwcus Y Loteri bwyntio atyn' nhw am wyth o'r gloch ryw nos sadwrn !?

Awdur a Chyfarwyddwr : ~ **Meic Povey**
Cast : ~ **Maldwyn John, Merfyn Jones, Gwenno Hodgkins, Morgan Hopkins, Anwen Carlisle.**

## Canolfan Celfyddydau CHAPTER - CAERDYDD

Nos Iau, Chwefror 20 - 8.00 p.m.
Nos Wener, Chwefror 21 - 8.00 p.m.
Nos Sadwrn, Chwefror 22 - 8.00 p.m.

Tocynnau: 01222 399666
Pris Tocynnau: £6.50, £4.50

**Am wybodaeth pellach, cysylltwch a Dalier Sylw - 01222 236650**

## Gwersi Ffrangeg a Sbaeneg

gan Athrawes Raddedig a Brwdfrydig.
Dysgir hyd at TGAU neu Lefel 'A'.
Croeso hefyd i ddechreuwyr.
Cysylltwch â Lowri Williams:
**Ffôn: (01222) 465580**

## Eleanor Jones

Gwasanaeth Cyfrifon a Threth Incwm
yn cynnig help gyda
**HUNAN ASESU**
**CADW CYFRIFON**
**PARATOI CYFRIFON**
**LLENWI FFURFLENNI TRETH INCWM**
**TALU WRTH ENNILL**
Ffoniwch:
**01222 - 561906**

# Y NATURIAETHWR

## Cymdeithas Edward Llwyd

45 Maes yr Hafod, Porthaethwy, Ynys Môn, LL59 5NB

Ymddangosodd **Y Naturiaethwr** ar ei newydd wedd ym 1996 a'r bwriad yw datblygu cylchgrawn fydd yn rhoi cyfle i aelodau'r gymdeithas ac eraill i gyhoeddi gwaith gwreiddiol o'u heiddo ar unrhyw bwnc oddi mewn i gwmpas diddordeb y gymdeithas - gall fod yn natur, daearyddiaeth, archaeoleg, hanes, daeareg neu yn wir unrhyw bwnc sy'n adlewyrchu diddordebau eang Llwyd ei hun.

Felly, os hoffech weld eich gwaith ymchwil neu groniclo yn cael ei gyhoeddi, yn nodyn neu yn bapur swmpus, cysylltwch â mi. Anelwn at gyhoeddi data gwerthfawr am Gymru a'i chefn gwlad a fydd o werth i groniclwyr y dyfodol. Cysylltwch hyd yn oed os nad ydych yn sicr a yw eich gwaith yn gweddu - mae canllawiau i awduron manwl i'w cael gennyf.

Y dyddiad olaf swyddogol i dderbyn cyfraniadau ar gyfer rhifyn 1997 yw'r dydd olaf o Chwefror.

**Llyr D. Gruffydd,** Golygydd

**Swyddi parhaol mewn gwasg flaengar**

## Swyddog Gweinyddol

yn eisiau i reoli ein prif swyddfa ac i ddelio a chyfrifon, cyflogau a gweinyddiaeth y cwmni. Swydd gyfrifol, cyflog ac amodau da; rhoddir hyfforddiant.

## Rhwymydd/Argraffydd

i drin peiriannau amrywiol yn ein rhwymfa lyfrau. Angen person medrus a gofalus, rhoddir hyfforddiant.
Y ddwy swydd i ddechrau fis Mawrth.
Ceisiadau i law erbyn 17 Chwefror.
Manylion llawn gan y Cyfarwyddwr.

y lolfa

Talybont, Ceredigion. SY24 5HE.
Ffôn 01970 832304. Ffacs 832782.
e bost Ylolfa@netwales co.uk
Y Wê http.//wwwylolfa.wales.com/

# CYFLE I ENNILL £1000 MEWN CYFRES ARALL O SION A SIAN

**MAE'R JACPOT YN £1000 AM ATEB CHWE CWESTIWN YN GYWIR AC YN AGORED I GYPLAU SY'N MEDDWL EU BOD YN ADNABOD EI GILYDD YN DDA.**

**AM FWY O FANYLION FFONIWCH NEU YSGRIFENNWCH YN SYTH AT**

**MERERID NEU FFION**
**SWYDDFA SION A SIAN**
**ADRAN ADLONIANT**
**HTV CYMRU**
**CROES CWRLWYS**
**CAERDYDD**
**CF5 6XJ**

**RHIF FFÔN : 01222 590173**
**01222 590132**

**ADRAN Y GYMRAEG**

# LLÊN A BYWYD GWERIN YNG NGHAERDYDD

CWRS LLAWN AMSER NEU RAN AMSER
MEWN ASTUDIAETHAU GWERIN
YN ARWAIN AT RADD MA
MEWN ASTUDIAETHAU GWERIN
CYNIGIR Y CWRS GAN ADRAN Y GYMRAEG
MEWN CYDWEITHREDIAD AG
AMGUEDDFA WERIN CYMRU, UN O BRIF
AMGEUEDDFEYDD AWYR AGORED EWROP

Am fanylion pellach, cysylltwch â:
*TECWYN VAUGHAN JONES*
*ADRAN Y GYMRAEG*
*PRIFYSGOL CYMRU CAERDYDD*
*BLWCH S.P. 910*
*CAERDYDD CF1 3XW*
*Ffôn: (01222) 874843*
E Bost: Jones TV@cf.ac.uk

**I DDECHRAU MEDI 1997**

GOFYNNIR I YMGEISWYR FEDDU AR RADD PRIFYSGOL NEU GYMWYSTER PROFFESIYNOL CYMESUR

CAERDYDD
*Yn rhagori mewn ymchwil a dysgu*